Ysgol Gynradd Babyddol y Santes Anne, Wrecsam

Polisi Derbyn

DERBYN PLANT I'R DOSBARTH DERBYN, MEDI 2012

Mae Polisi Derbyn yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth gynradd ac uwchradd sydd mewn grym, ac yn benodol:

Cod Derbyniadau Ysgolion – Cod Statudol 002/2009
Cod Apelau Derbyn Ysgol - Cod Statudol 003/2009
(Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen yng Ngorffennaf 2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru))
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – yr hawl i rieni ddewis (adran 86(1)) a'r hawl apelio.
Deddf Addysg 2002 - diddymu'r hawl i gyfyngu ar dderbyniadau yn seiliedig ar gyfran o blant o' r tu allan i'r grŵp ffydd.
Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth i Blant y Gofelir Amdanynt
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44) – gwahardd cyfweld rhieni a phlant
Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006

Cyhoeddir cyfarwyddyd anstatudol hefyd gan Esgobaeth Wrecsam.

O dan y gyfraith nid yw'n ofynnol i blentyn yng Nghymru ddechrau'r ysgol hyd nes dechrau'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed. Yn Ysgol y Santes Anne caiff plant pedair oed eu derbyn i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi'r Flwyddyn Ysgol y caiff ei ben-blwydd yn bump oed. Dosbarth Derbyn yw'r flwyddyn arferol ar gyfer dechrau yn yr ysgol.

Mae trefniadau yn y ddeddfwriaeth i fynd i'r afael â cheisiadau i blant ddechrau yn y dosbarth derbyn a grwpiau blwyddyn eraill yn ystod y flwyddyn. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn ystyried y rhain wrth iddynt godi.

Mae trefniadau derbyn ar wahân ar waith ar gyfer y dosbarth Meithrin ac nid yw'r rhain yn golygu ar unrhyw amod fod gan y plentyn hawl i le yn y dosbarth Derbyn.

Mae'r AALl wedi pennu'r Rhif Derbyn drwy fformiwla i 24. Bydd y Corff Llywodraethu yn caniatáu hyd ar y rhif hwnnw heb unrhyw amodau, waeth pa ffydd sydd gan y plentyn a heb gyfweliad. Rhaid

gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflen briodol a'i dychwelyd i'r ysgol, fan hwyraf, erbyn y dyddiad a gyhoeddir.

Ni fydd y Corff Llywodraethu yn caniatáu mwy na 30 disgybl i ymuno â dosbarth Derbyn na lluosrifau o hynny i Uned Blynyddoedd Cynnar.

Os yw'r ysgol wedi ei henwi mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig, mae gan y Corff Llywodraethol ddyletswydd i dderbyn y plentyn.

Gordanysgrifio

Os yw nifer yr ymgeiswyr yn fwy na'r rhif Derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodir gan y Corff Llywodraethu yn rhoi'r meini prawf gordanysgrifio canlynol ar waith yn ôl blaenoriaeth:

1. Plant a fedyddiwyd yn Gatholigion ac y gofelir amdanynt mewn lleoliadau gofal cyhoeddus.
2. Plant y gofelir amdanynt na fedyddiwyd yn Gatholigion.
3. Plant a fedyddiwyd yn Gatholigion o fewn plwyf y Santes Anne.
4. Plant a fedyddiwyd yn Gatholigion y gall yr ysgol ddiwallu eu hanghenion cymdeithasol a bugeiliol enbyd orau.

Ar gyfer plant Catholig yng nghategorïau 1, 3 a 4, bydd angen i'r Panel Derbyn weld copi gwreiddiol o Dystysgrif Geni a Thystysgrif Bedyddio.

Ar gyfer plant yng nghategori 4, bydd angen i'r Panel Derbyn weld tystiolaeth ategol gan ddoctor, gweithiwr cymdeithasol neu'r AALl i egluro pam mai'r ysgol hon yw'r ysgol fwyaf addas ar gyfer y plentyn.

5. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae gan eu rhieni awydd diffuant iddynt gael eu haddysg mewn ysgol Babyddol, ac sy'n llwyr gefnogol o'i hethos Catholig.

Bydd angen i'r Panel Derbyn weld copi gwreiddiol o Dystysgrif Geni a Thystysgrif Bedyddio.

7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
8. Plant y gofynnodd yr AALl i'r ysgol roi lle iddynt.

Os bydd gordanysgrifio i unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd y Panel Derbyn yn cynnig lleoedd i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol fel y mesurir gan y pellter cerdded byrraf rhwng drws ffrynt y cartref a phrif giât yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus a gadarnheir gan Adran Trafnidiaeth yr AALl.

Gweithdrefnau ar gyfer Blwyddyn Derbyn 2012

1. Bydd yr ysgol yn hysbysebu ei ddyddiadau derbyn ym mhob un o'r plwyfi mae'n eu gwasanaethu ym mis Medi 2011.

2. Bydd yr ysgol yn dosbarthu ffurflenni derbyn/dewis ar gyfer 2012 ym mis Medi 2011. Dylid eu dychwelyd i'r ysgol dim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddir.

3. Bydd yr Ysgol yn trefnu ymweliadau cynefino ar gyfer rhieni a nododd Ysgol y Santes Anne fel eu dewis cyntaf: yn achos rhieni nad ydynt yn Gatholigion bydd hyn yn cynnwys briffio ar natur Gatholig yr ysgol, ei hethos a'i darpariaeth o ran cwricwlwm.

4. Hysbysir rhieni erbyn 15fed Mawrth 2012 (i'w gadarnhau) pa un ai a yw lle wedi ei ddyrannu ai peidio.

5. Os yw eu cais yn aflwyddiannus, mae gan rieni hawl i apelio i Banel Apeliadau Annibynnol. Os na fu modd dyrannu lle i blentyn, hysbysir rhieni ynghylch yr hawl yma yn y llythyr penderfyniad.

6. Gofynnir i rieni sy'n dymuno apelio gysylltu yn y lle cyntaf â Phennaeth yr ysgol, a bydd hi'n eu cynghori ynghylch sut i gysylltu â'r Panel Apeliadau Annibynnol.

7. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl yn ysgrifenedig, gan wneud hynny heb fod yn hwyrach nag 20 diwrnod gwaith wedi derbyn y llythyr dyrannu. Bydd apeliadau yn cael eu clywed o fewn 30 ddiwrnod o'r dyddiad cau penodedig ar gyfer derbyn apeliadau.

Nodiadau

1. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu gadarnhau'r trefniadau derbyn yn **2012** erbyn 15fed Ebrill 2011.

2. Mae'r Corff Llywodraethu wedi penderfynu ymgynghori'n ffurfiol ar ei bolisi. Mae'r ymgynghoriad gyda'r Awdurdod Derbyn i'w gynnal o 4ydd Ionawr 2011 am gyfnod o wyth wythnos. Bydd yr ymgynghoriad ysgrifenedig yma yn digwydd gydag Ysgol Gynradd Babyddol y Santes Fair, Wrecsam, fel Awdurdod Derbyn yr ysgol, a chyda ALl Wrecsam ac Esgobaeth Wrecsam.

3. Rhaid cwblhau'r broses ymgynghori erbyn 1af Mawrth 2011. Wedi'r cyfnod wyth wythnos bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu ei bolisi yng ngoleuni'r ymatebion a bydd mewn sefyllfa i adolygu ei drefniadau Derbyn a phenderfynu arnynt cyn 15 fed Ebrill 2011.

4. Bydd angen ystyried a phenderfynu'r trefniadau ar gyfer Medi 2013 ac wedi hynny drwy'r un broses ac amserlen (yn amodol ar unrhyw amrywiad statudol). Mae'r Corff Llywodraethol wedi cytuno bod hyn i fod yn eitem sefydlog o Fusnes Llywodraethwyr yng nghyfarfod cyntaf pob blwyddyn ysgol. Gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad blynyddol hwn, bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu'n ffurfiol a yw ymgynghoriad yn unol â'r rheoliadau yn briodol ai peidio.